

Teitl Swydd Cynorthwydd Prosiect

Cwmni Cofis Bach

Lleoliad gwaith: Canolfan Noddfa Caernarfon

Atebol i: Cydlynnydd Creadigol

Cyflog: £20,202 pro rata

Oriau Gwaith: 22 awr yr wythnos - oriau hyblyg (yn cynnwys penwythnosau yn ddibynnol ar brosiectau) ac yn cynnwys pob nos Fawrth yn ystod tymor ysgol.

Cytundeb: Tan ddiwedd Medi 2017

Mae Cwmni Cofis Bach yn elusen sydd yn cynnig gweithgareddau celf am ddim i blant a phobl ifanc ym Mheblig, Caernarfon.

Pwrpas y Swydd: I gynorthwyo rhediad holl brosiectau y cwmni gyda chefnogaeth weinyddol.

Prif ddyletswyddau

- Bod yn gyswllt cyntaf i'r holl ymwelwyr ac ar gyfer ymholiadau dros y ffôn ac e-bôst.
- Paratoi ar gyfer sesiynau drwy sicrhau fod offer addas yn yr ystafelloedd priodol a pharatoi lluniaeth ysgafn i'r palnt
- Paratoi a dosbarthu llythyrau a thafleuni.
- Creu a chofnodi amserlenni a chofrestrau.
- Cofnodi sesiynau a thynnu lluniau o weithgareddau i'w arddangos yn y Ganolfan.
- Cynorthwyo gyda'r wefan a chyfryngau cymdeithasol yn ogystal â datganiau i'r wasg.
- Adolygu holl ddata a gwaith papur i sicrhau fod gwybodaeth am weithgareddau, canlyniadau a manylion cysylltu yn cael eu cofnodi'n iawn.
- Cymryd cyfrifoldeb am adoddau/offer sydd angen eu prynu a'u hadnewyddu.
- Bydd cyfle i gyfrannu at sesiynau creadigol gweithgareddau Cofis Bach.

Manyleb Person

Cymwysterau

Hanfodol

- Cefndir addysgol dda.

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol (yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg).
- Diddordeb yn y celfyddydau.

Profiad

Hanfodol

- Profiad o waith (neu waith gwirfoddol) gweinyddol.

Dymunol

- Profiad o waith /gwirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc.
- Profiad o waith / gwirfoddoli ar gynllun cymunedol.

Sgiliau

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu da yn Gymraeg a Saesneg.
- Y gallu i gynllunio gwaith a gweithio'n annibynnol.

Dymunol

- Dealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc ardal Peblig.

Mae'n bosib y bydd y swydd ddisgrifiad yma yn cael ei adolygu drwy gytundeb gyda deilydd y swydd os bydd newid yng ngwaith yr elusen.

